# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 27 Mehefin 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

# 79(v5)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## Cynnig am Ddadl Frys o dan Reol Sefydlog 12.69

Carwyn Jones:

Cytundeb 'Hyder a Chyflenwi' Llywodraeth y DU a Phlaid yr Unoliaethwyr Democrataidd (y DUP)

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Rhaglen Lywodraethu

(90 munud)

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Polisi a Deddfwriaeth yr Amgylchedd Hanesyddol - Gohiriwyd i 4 Gorffennaf 2017

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Diweddariad ar Wasanaeth Braenaru 111 y GIG yng Nghymru - Gohiriwyd i 4 Gorffennaf 2017

## 6 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Cylchffordd Cymru

(60 munud)

## 7 Dadl: Datgarboneiddio yn y Sector Cyhoeddus

(60 munud)

**NDM6339** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi arweiniad Llywodraeth Cymru o safbwynt rhoi ar waith gamau gweithredu i ddatgarboneiddio sector cyhoeddus Cymru, a hynny'n unol â'i hymrwymiadau statudol o fewn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

2. Yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru o gyflymu'r gwaith o ddatgarboneiddio'r sector cyhoeddus er mwyn rhoi hwb pellach i'r economi carbon isel.

3. Yn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru o sicrhau bod sector cyhoeddus Cymru'n garbon niwtral erbyn 2030.

4. Yn nodi'r cais am dystiolaeth sydd ar y gweill a fydd yn ceisio sylwadau ynghylch y dull ar gyfer datgarboneiddio'r sector cyhoeddus.

'Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016'

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** [Paul Davies (Preseli Sir Benfro)]

Ychwanegu pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu mai araf yw'r cynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud yn ei hymdrechion i bennu Cyllideb Garbon ar gyfer 2016-2020.

**Gwelliant 2.** [Paul Davies (Preseli Sir Benfro)]

Ychwanegu pwynt 4 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn credu bod angen i'r darpariaethau yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy gael mwy o ddylanwad dros Lywodraeth Cymru o ran pennu ei chyllideb ei hun.

**Gwelliant 3.** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu cwmni ynni cenedlaethol di-ddifidend, hyd braich oddi wrth Lywodraeth Cymru, gyda'r diben o gynyddu effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu trydan adnewyddadwy yn y sector cyhoeddus fel rhan o'i gylch gwaith.

**Gwelliant 4.** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnwys mesurau i leihau llygredd aer fel rhan o'i ffordd o ddatgarboneiddio yn y sector cyhoeddus.

**Gwelliant 5.** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi cymorth i'r sector cyhoeddus i ddarparu pwyntiau gwefru trydan ar gyfer cerbydau ar safle at ddefnydd cyflogeion ac ymwelwyr.

**Gwelliant 6.** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi cymorth i gyrff cyhoeddus i ddatgarboneiddio trafnidiaeth drwy ddefnyddio cerbydau hydrogen ac LPG a dyfeisiadau arloesol tebyg.

## 8 Dadl: Cyfnod 4 y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru)

(15 munud)

**NDM6351** Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo'r Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru).

**Dogfennau Ategol**
Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Datganiad y Llywydd Yn unol ag Adran 111A(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

## 9 Dadl Frys

(60 munud)

Cytundeb 'Hyder a Chyflenwi' Llywodraeth y DU a Phlaid yr Unoliaethwyr Democrataidd (y DUP)

## 10 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 28 Mehefin 2017